


NEWYDDION E-DDYSGU HYDREF 2017



Dyddiadau Pwysig

- Cynnal a chadw Blackboard dros y Gaeaf: 20-21 Rhagfyr 2017
- Rhestrir y cyfnodau 'Dan Fygythiad' ar y dudalen isod

<http://jump.aber.ac.uk/?qcxpt>



Adnewyddu ac Uwchraddio AberDysgu Blackboard


Mae gan Blackboard wedd newydd ar gyfer 2017-18, yn seiliedig ar adborth gan staff a myfyrwyr.

Mae'r uwchraddiad yn cyflwyno dull llusgosod o uwchlwytho ffeiliau, derbynebau ar gyfer Aseiniadau Blackboard. Gallwch e-bostio'r rhai nad ydynt wedi cyflwyno o'r Ganolfan Raddau. Gweler y [manylion ar Nexus](#). Rhowch wybod beth yw eich barn am y rhyngwyneb newydd: is-alto@aber.ac.uk.

✓ Total	ELECTRONIC E
70	70.00
60	60.00
--	--
61	61.00

Trosglwyddo Marciau Cydrannol

Mae modd i staff drosglwyddo marciau'n uniongyrchol o Ganolfan Raddau Blackboard i ASTR, sy'n symleiddio'r broses farcio. Gallwch ddychwelyd marciau ac adborth ar gyfer aseiniadau nad ydynt wedi'u he-gyflwyno drwy'r Ganolfan Raddau. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y [Cwestiwn Cyffredin](#) hwn.




Turnitin Feedback Studio

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017-18, rydym wedi newid i Turnitin Feedback Studio, sydd â rhyngwyneb mwy cyfeillgar i ddefnyddwyr. Rhowch gynnig arno ar [safle](#) Turnitin. Gweler [canllaw arfer da Turnitin](#) ar Nexus.




Rhith Realiti ar gyfer Dysgu, Addysgu ac Ymchwil

Defnyddiwch fideos trochi i helpu eich myfyrwyr i ddysgu. Ers yr 2il o Hydref 2017, mae deuddeg o bensetiau rhith realiti ac un camera rhith realiti ar gael at ddefnydd y staff yn unig. Gweler y [dudalen Rhith Realiti ar Nexus](#) i gael manylion a gwybodaeth am sut i'w defnyddio. Archebwch drwy wasanaeth [Benthyca Offer y GG](#).



Dyddiad Cau Gwobr Cwrs Eithriadol PA yw 17 Tachwedd 2017

Cysylltwch â'r Grŵp E-ddysgu (is_alto@aber.ac.uk) am gymorth. Gweler y dudalen [GCE ar Nexus](#) i gael manylion.



AirServer

Mae AirServer yn eich galluogi i gysylltu eich ffôn Android neu iOS neu lechen i'r cyfrifiadur dysgu'n ddiwifr er mwyn i chi allu taflunio o'ch dyfais. Gweler y [canllaw i offer yr ystafell ddysgu](#) ar Nexus.



Box of Broadcasts

Mae Box of Broadcasts yn wasanaeth recordio oddi ar yr awyr gan Gyngor Ffilm a Fideo Prifysgolion Prydain. Mae'n caniatáu i staff ddewis a recordio rhaglenni. Gweler y [dudalen BoB](#) ar Nexus i gael manylion.

What do teaching staff need to know?



Gwybodaeth angenrheidiol i'r Staff Dysgu

Darllenwch bolisiau'r Brifysgol ynghylch dysgu drwy gyfrwng technoleg.

<http://jump.aber.ac.uk/?kcxpt>

#AUTEL2017



Cynhadledd Dysgu ac Addysgu PA


Gallwch barhau i gael ysbrydoliaeth ar gyfer eich dysgu o [gynhadledd dysgu ac addysgu 2017](#) – gweler y [rhaglen lawn ar Nexus](#). Gallwch weld recordiadau, cyflwyniadau PowerPoint, a phosteri gan y prif siaradwyr a'r sesiynau yn y modiwl [Gwella Dysgu gyda Thechnoleg](#) yn Blackboard. Cynhelir cynhadledd y flwyddyn nesaf ym mis Medi 2018.

Academi



Academi Aber – yn Llyfrgell Hugh Owen

Cyfle i drafod dysgu ac addysgu yn y fforwm, defnyddio cyfleusterau cyfryngau'r Academi a chael hyfforddiant a chymorth. Gweler [Nexus](#) i gael manylion.



Cymorth a Hyfforddiant

- E-bostiwch bb-team@aber.ac.uk neu ffoniwch estyniad 2472 os oes gennych unrhyw ymholiadau, ceisiadau am ymgynghoriad, neu i archebu sesiwn hyfforddi penodol.
- Sesiynau hyfforddi, digwyddiadau'r Academi, seminarau ar y we (o'ch desg eich hun) – gweler Nexus <http://jump.aber.ac.uk/?mmkbt>.
- Mae hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar gael ar gais.